# Asiant er Newid

## Cwestiynau Cyffredin

Pan fyddwn yn derbyn cwestiwn ynglŷn â’r swydd fe wnawn ni ychwanegu’r cwestiwn ac ateb yn y ddogfen hon er mwyn bod pawb yn cael yr un wybodaeth.

**Ble mae’r fanyleb person?**

Rydym wedi osgoi bod yn rhy ragnodol yn fwriadol. Rydym yn chwilio am rywun sydd â phrofiad byw a all ddangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae yna dudalen yn y briff gyda'r teitl “Beth yw'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen?" - dyna le byddwch chi'n dod o hyd i'r hyn rydyn ni'n chwilio amdano yn yr Asiant er Newid.

**Faint sydd angen i mi ei ysgrifennu yn fy mynegiant o ddiddordeb?**

Nid ydym wedi gosod terfyn ar faint y dylech chi ysgrifennu yn eich mynegiant o ddiddordeb. Rydym yn ei gadw ar agor fel y gall ymgeiswyr ddweud cymaint ag sydd ei angen. Y rheswm am hyn yw ein bod yn deall y bydd profiadau a syniadau pobl yn wahanol iawn, ac rydym am ddysgu amdano, felly byddwn yn cael ein tywys gennych chi ar hyn.